O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 81

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cael Gwared ar y Gofrestr Olygedig) (Cymru) 2026

Gwnaed	*11 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Hydref 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 81

The Representation of the People (Removal of the Edited Register) (Wales) Regulations 2026

Made	*11 March 2026*
Coming into force	*1 October 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 81

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cael Gwared ar y Gofrestr Olygedig) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Fel rhan o gyflwyno cofrestru etholiadol heb geisiadau, o dan y newidiadau a wnaed gan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("Deddf 2024"), mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso'r gofynion yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 ("Rheoliadau 2001") a osodir ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i lunio cofrestrau golygedig o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru neu gyflenwi cofrestrau o'r fath neu ran ohonynt i unrhyw berson ar ôl talu ffi.

Yn unol ag adran 72(5)(d) o Ddeddf 2024, ni chaniateir cychwyn y darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 1 o'r Ddeddf honno (cofrestru etholiadol heb geisiadau) hyd nes nad yw'r gofynion i lunio a chyflenwi cofrestr olygedig o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru mewn grym mwyach.

Mae rheoliad 3 yn datgymhwyso rheoliad 93 (fersiwn olygedig o'r gofrestr) o Reoliadau 2001 mewn perthynas â chofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru.

Mae rheoliad 4 yn datgymhwyso rheoliad 93A (hysbysu swyddog cofrestru am newid i ddewisiadau ynghylch y gofrestr olygedig) o Reoliadau 2001 mewn perthynas â chofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru.

Mae rheoliad 5 yn datgymhwyso rheoliad 110 (gwerthu'r gofrestr olygedig) o Reoliadau 2001 mewn perthynas â chofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru sy'n gyfrifol am gofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru beidio â rhoi ar gael, i'r cyhoedd edrych arni nac i'w gwerthu, y fersiwn olygedig o'r gofrestr honno sydd mewn grym ar yr adeg y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol

o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 81

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cael Gwared ar y Gofrestr Olygedig) (Cymru) 2026

Gwnaed	*11 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Hydref 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 53(1) a (4) a 201(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**) ("Deddf 1983") ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 201(2)(**3**) o Ddeddf 1983(**4**) gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cael Gwared ar y Gofrestr Olygedig) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2026.

Diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001

2. Mae Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(**5**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 5.

3. Yn rheoliad 93 (fersiwn olygedig o'r gofrestr), ar ôl paragraff (7) mewnosoder—

(**1**) 1983 p. 2. Diwygiwyd adran 53 gan adran 24 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 a pharagraff 13(b) o Atodlen 4 iddi, a chan baragraff 13(b) o Atodlen 1, a Rhan 1 o Atodlen 7, i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o fewn cymhwysedd datganoledig, i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) a pharagraff 1 o Atodlen 2 iddo.

(**3**) Mae'r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig yn adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**4**) Amnewidiwyd adran 201(2) gan adran 24 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50) a pharagraff 69 o Atodlen 4 iddi, ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6(1) a (7)(b) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41); gan adran 13(2) o Ddeddf Gogledd Iwerddon (Darpariaethau Amrywiol) 2014 (p. 13); gan baragraff 1(9) o Atodlen 8 i Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37); a chan O.S. 1991/1728.

(**5**) O.S. 2001/341. Mewnosodwyd Rhan 6 gan reoliad 15 o O.S. 2002/1871. Mewnosodwyd paragraff (2A) o reoliad 93 gan reoliad 23 o O.S. 2006/2910. Mae diwygiadau eraill i Ran 6 nad ydynt yn berthnasol.

"(8) This regulation does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."

4. Yn rheoliad 93A (hysbysu swyddog cofrestru am newid i ddewisiadau ynghylch y gofrestr olygedig), ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) This regulation does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."

5. Yn rheoliad 110 (gwerthu'r gofrestr olygedig), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) This regulation does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."

Fersiwn olygedig o gofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru sydd mewn grym cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym

6. O'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym, rhaid i swyddog cofrestru etholiadol sy'n gyfrifol am gofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru(**6**) beidio â rhoi ar gael, i'r cyhoedd edrych arni nac i'w gwerthu, y fersiwn olygedig o'r gofrestr honno sydd mewn grym ar yr adeg honno.

Jayne Bryant
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
11 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

(**6**) Fel y'i penodir yn unol ag adran 8(2A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2). Diwygiwyd adran 8 gan adran 66(6) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 68(1) o Atodlen 16 iddi, er mwyn mewnosod darpariaethau ynghylch penodi swyddogion cofrestru etholiadol yng Nghymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 81

REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The Representation of the People (Removal of the Edited Register) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

As part of the introduction of electoral registration without applications, under the changes made by the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 ("the 2024 Act"), these Regulations disapply the requirements in the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001 ("the 2001 Regulations") placed upon Electoral Registration Officers to prepare edited registers of local government electors for an area in Wales or supply such registers or part of them to any person on payment of a fee.

In accordance with section 72(5)(d) of the 2024 Act, the provisions of Chapter 2 of Part 1 of that Act (electoral registration without applications) may not be commenced until the requirements to prepare and supply an edited register of local government electors for an area in Wales are no longer in force.

Regulation 3 disapplies regulation 93 (edited version of register) of the 2001 Regulations in relation to a register of local government electors for an area in Wales.

Regulation 4 disapplies regulation 93A (notifying registration officer of change to edited register preference) of the 2001 Regulations in relation to a register of local government electors for an area in Wales.

Regulation 5 disapplies regulation 110 (sale of edited register) of the 2001 Regulations in relation to a register of local government electors for an area in Wales.

Regulation 6 requires a registration officer responsible for a register of local government electors for an area in Wales to cease to make available, for public inspection and sale, the edited version of that register that is in force at the time of the coming into force of these Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory

impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 81

REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The Representation of the People (Removal of the Edited Register) (Wales) Regulations 2026

Made	*11 March 2026*
Coming into force	*1 October 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 53(1) and (4) and 201(1) of the Representation of the People Act 1983(**1**) ("the 1983 Act") and now exercisable by them(**2**).

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 201(2)(**3**) of the 1983 Act(**4**) a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Representation of the People (Removal of the Edited Register) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 October 2026.

Amendments to the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001

2. The Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001(**5**) are amended in accordance with regulations 3 to 5.

3. In regulation 93 (edited version of register), after paragraph (7) insert—

(**1**) 1983 c. 2. Section 53 was amended by section 24 and paragraph 13(b) of Schedule 4 to the Representation of the People Act 1985, and paragraph 13(b) of Schedule 1, and Part 1 of Schedule 7, of the Representation of the People Act 2000 (c. 2).

(**2**) The functions of the Secretary of State, insofar as they are exercisable within devolved competence, were transferred to the Welsh Ministers by article 45 of, and paragraph 1 of Schedule 2 to, the Welsh Ministers (Transfer of Functions) Order 2018 (S.I. 2018/644).

(**3**) The reference to each House of Parliament in section 201(2) of the Representation of the People Act 1983 is to be read as a reference to the National Assembly for Wales by virtue of paragraph 9(2)(b) of Schedule 3 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). The National Assembly for Wales was renamed Senedd Cymru by virtue of section 2 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).

(**4**) Section 201(2) was substituted by section 24 of, and paragraph 69 of Schedule 4 to, the Representation of the People Act 1985 (c. 50), and was amended by paragraph 6(1) and (7)(b) of Schedule 21 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41); by section 13(2) of the Northern Ireland (Miscellaneous Provisions) Act 2014 (c. 13); by paragraph 1(9) of Schedule 8 to the Elections Act 2022 (c. 37); and by S.I. 1991/1728.

(**5**) S.I. 2001/341. Part 6 was inserted by S.I. 2002/1871, regulation 15. Paragraph (2A) of regulation 93 was inserted by S.I. 2006/2910, regulation 23. There are other amendments to Part 6 which are not relevant.

"(8) This regulation does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."

4. In regulation 93A (notifying registration officer of change to edited register preference), after paragraph (4) insert—

"(5) This regulation does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."

5. In regulation 110 (sale of edited register), after paragraph (2) insert—

"(3) This regulation does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."

Edited version of a register of local government electors for an area in Wales in force prior to the coming into force of these Regulations

6. From the day these Regulations come into force, an electoral registration officer responsible for a register of local government electors for an area in Wales(**6**) must cease to make available, for public inspection and sale, the edited version of that register that is in force at that time.

Jayne Bryant
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
11 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

(**6**) As appointed in accordance with section 8(2A) of the Representation of the People Act 1983 (c. 2). Section 8 was amended by section 66(6) and (8) of, and paragraph 68(1) of Schedule 16 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19), to insert provisions regarding the appointment of electoral registration officers in Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839852-6

9 780348 398526